Deall Dyneiddiaeth

# BETH YW AGWEDD DYNEIDDIAETH TUAG AT FOD YN DDA?



Mae gennym ni lawer o **deimladau, anghenion a gwerthoedd** cyffredin. Gall hyn ein helpu i weld pam y dylem ni fod yn dda i'n gilydd, oherwydd bod pobl eraill yn debyg i ni.

ZENA

Mae gennym ni resymau da dros drin eraill yn dda. Nid ydym ni bob amser yn **dda**. Ond mae'r rhan fwyaf o fodau dynol yn dda i'w gilydd y rhan fwyaf o'r amser. Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd rydym ni'n gwybod beth yw'r peth iawn i'w wneud. Gallwn ni ddod i'w ddeall.



IAN

Y rheswm dros fod yn garedig ac yn gymwynasgar yn hytrach na bod yn ddi-hid neu'n greulon yw oherwydd bod ein gweithredoedd yn cael **effaith** ar bobl eraill, y gymdeithas a'r blaned. Dylem ni geisio hyrwyddo hapusrwydd a lleihau dioddefaint yn y presennol. Mae hynny'n cynnwys anifeiliaid nad ydyn nhw'n fodau dynol. Mae anifeiliaid eraill yn gallu dioddef. Dylem ni geisio lleihau eu dioddefaint nhw hefyd.



ALEX

Gall rheolau fod yn ddefnyddiol, ond gallan nhw hefyd arwain at broblemau weithiau. Felly, mae angen i ni feddwl am **ganlyniadau** ein gweithredoedd bob amser ac ystyried ai dilyn rheol benodol yw'r ffordd orau o weithredu.



JESSICA

Mae gan y rhan fwyaf ohonom **empathi**. Gallwn ni ddefnyddio hyn i feddwl sut gall pobl eraill fod yn teimlo. Gall empathi ein helpu i weld y dylem ni drin pobl eraill fel y byddem ni'n dymuno cael ein trin. Y **Rheol Aur** yw'r enw ar hyn.



GRACE

Nid oes unman arall y tu hwnt i'r ddynoliaeth y gallwn ni droi ato am atebion. Mae'n rhaid i ni dderbyn y **cyfrifoldeb i feddwl drosom ni ein hunain**



HARI

© HUMANISTS UK 2021